Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Pam rydym yn sgrinio cleifion ar gyfer MRSA?

## Y Tîm Atal Heintiau

**Beth yw MRSA?**
MRSA yw Staphylococcus Aureus sy’n gwrthsefyll Methicillin. Mae'n ficro-organeb neu'n "fyg" sy'n gallu byw ar groen pobl lle nad yw fel arfer yn achosi problem. Os yw'n mynd i glwyfau, y poer, wrin, neu’r pibellau, gall achosi haint. Nid yw’r gwrthfiotigau a ddefnyddir amlaf yn ei ladd.

**Pam rydym yn sgrinio ar gyfer MRSA?**
Mae rhai aelodau o'r boblogaeth gyffredinol yn cario byg MRSA ar eu crwyn neu yn eu trwynau. Gellir adnabod yr unigolion hyn drwy sgrinio (cymryd swab).
Mae hyn yn golygu y gellir eu nyrsio'n briodol pan gânt eu derbyn i'r ysbyty. Bydd hyn yn lleihau'r risg o groes-heintio i gleifion eraill. Gellir asesu pobl y cafwyd eu bod yn cario MRSA i weld a fyddent yn elwa o gael triniaeth i geisio cael gwared ar yr MRSA.

**Beth yw sgrin MRSA?**
Mae sgrin MRSA gyffredinol yn cynnwys dau swab sydd fel arfer yn cael eu cymryd o'r trwyn a'r gwddf. O bryd i'w gilydd, ar gyfer rhai gweithdrefnau llawfeddygol, gellir gofyn am swabiau ychwanegol o’r ceseiliau, perinëwm (yr afl) ac unrhyw groen sydd wedi torri neu sy’n annormal e.e. clwyfau, ecsema ac ati. Gellir casglu sampl wrin gan gleifion â chathetrau mewnol. Caiff yr holl esiamplau eu hanfon i'r labordy i'w dadansoddi.

**Sut bydda i'n gwybod os yw e arna i?**
Os cewch eich sgrinio gan eich meddyg teulu bydd yn rhoi gwybod i chi beth yw’r canlyniadau. Os cewch eich sgrinio yn yr ysbyty, bydd yr Ymgynghorydd yn rhoi gwybod i chi neu'ch meddyg teulu ac yn cynghori a oes angen triniaeth ai peidio.

**Sut caiff fy MRSA ei drin os ydw i'n gludwr MRSA?**
Gellir trin MRSA mewn sawl ffordd megis defnyddio eli gwrthfiotig, dresin a sebon gwrthseptig arbennig.

**Am ba hyd bydd y driniaeth yn para?**
O bump i ddeg diwrnod fel arfer.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**
Bydd eich meddyg teulu, ymgynghorydd sy'n gyfrifol am eich gofal neu nyrs benodedig yn eich cynghori ar unrhyw swabiau/sgrinio pellach y gallai fod eu hangen i weld a yw'r MRSA wedi mynd.

Defnyddiwch y gofod isod i ysgrifennu unrhyw gwestiynau sydd gennych a gofynnwch i nyrs eu hateb.

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

Mae'r nyrsys atal heintiau ar gael i helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Gellir cysylltu â nhw ar y rhifau canlynol:-

**RHIFAU CYSWLLT Y TÎM ATAL HEINTIAU**

| | |
|---|---|
| **Ysbyty Nevill Hall** | **01873 732048** |
| **Ysbyty Brenhinol Gwent** | **01633 – 238101** |
| **Ysbytai Cymunedol yn cynnwys Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Aneurin Bevan** | **07903 324603** |

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**